



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Newyddion

Y Gymraeg mewn Addysg – Sgiliau Cymraeg y Gweithlu ★NEWYDD★

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gweledigaeth a her glir i gynyddu'r nifer o unigolion sy'n gallu siarad Cymraeg. Disgwylir i'r sector addysg chwarae rhan flaenllaw yn datblygu sgiliau Cymraeg pob dysgwyr ym mhob un o'n hysgolion, ac o ganlyniad i hyn, datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Cliciwch yma i ddarllen y llythyr at Benaethiaid gan eich Pennaeth Addysg.

Trosolwg o Ymagweddau at Gaffael Ail Iaith ac Arferion Addysgol ★NEWYDD★

Er gwybodaeth, mae'r adroddiad a enwir uchod wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn ddiweddar.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.

Plant Milwyr ★NEWYDD★

Mae plant milwyr yn byw ac yn mynychu'r ysgol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, nid ardaloedd ger gweryslyoedd y Lluoedd Arfog yn unig.

Cliciwch yma i ddarllen mwy.

Gweithdy Penaethiaid Newydd

DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018 – 8:45YB-5:00YH – OpTIC, LLANELWY

Gweithdy Rhanbarthol GwE ar gyfer Penaethiaid Newydd: 'Arweinyddiaeth Effeithiol mewn Byd sy'n Brysur Newid'

Ar gyfer pob Pennaeth newydd yn ystod blwyddyn gyntaf eu swydd sylweddol. Mae croeso i Benaethiaid Dros Dro yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Ceir rhagor o fanylion am y gweithdy a manylion cofrestru wrth glicio yma.

Cynhadledd Estyn – Arloesi'r Cwricwlwm mewn Ysgolion

Cynradd ★NEWYDD★

GLASDIR, LLANRWST – DYDD MAWRTH, 22 MAI 2018

Dysgwch sut mae ysgolion cynradd ac ysgolion pob oed wedi bod yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd trwy weithdai ar arfer effeithiol a chipolygon o arolygu.

Am ragor o fanylion, cliciwch yma.

Cynhadledd i Arweinwyr Chweched Dosbarth

DYDD IAU, 22 MAWRTH 2018 – GLASDIR, LLANRWST

Bydd GwE yn cynnal cynhadledd wedi'i hanelu at arweinwyr ac uwch arweinwyr chweched dosbarth sy'n gyfrifol am godi safonau ym Mlynnyddoedd 12 a 13. Y prif siaradwr fydd Tracey Greenaway-Jones a fydd yn canolbwyntio ar ei phrofiad o godi safonau a gwella ansawdd.

Am ragor o fanylion, cliciwch yma.

I gofrestru, dilynwch y ddolen hon.

Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

Asesu ar gyfer Dysgu: Gweithio'n ddoethach, nid yn galetach – Gareth Coombes

Hyfforddiant ar gyfer holl Benaethiaid neu Arweinwyr Dysgu Ysgolion y Rhanbarth

Lle i un cynrychiolydd o bob ysgol

Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

*****DYDDIAD I'CH DYDDIADUR*****

Cynhadledd Uwchradd – Arwain Addysgu a

Dysgu

DYDD MAWRTH, 3 GORFFENNAF 2018 – MANYLION COFRESTRU I DDILYN

Arweiniad ar sicrhau defnydd effeithiol a chyson o Aseu ar gyfer Dysgu drwy'r ysgol.

Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

Defnydd Effeithiol o Aseu ar gyfer Dysgu i

Leihau Baich Gwaith

CYFLWYNIAD I YSGOLION CYNRADD AC ARBENNIG I DDEUNYDDIAU CEFNOGOL SY'N CAEL EU RHANNU'N GENEDLAETHOL

Gwahoddiad i [un](#) cynrychiolydd o bob ysgol – Pennaeth, Arweinydd Canol, Arweinydd Aseu neu Arweinydd Addysgu.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

Cyfarfodydd Rhwydwaith Rhifedd a

Llythrennedd Cynradd

Diben y cyfarfod Rhwydwaith Llythrennedd/Rhifedd hanner diwrnod hwn yw dod ag Arweinwyr Llythrennedd/Rhifedd ynghyd mewn cyfarfod anffurfiol i rannu, trafod ac archwilio'r syniadau diweddaraf ym maes datblygu llythrennedd a rhifedd yn ein hysgolion cynradd. Hwn fydd y cyfarfod cyntaf o ddau yn ystod y flwyddyn ysgol hon.

[Cliciwch ar y dolenni isod](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru:

[Cyfarfodydd Llythrennedd](#) | [Cyfarfodydd Rhifedd](#)

Talk4Writing – Ysgrifennu Ffeithiol i'r Cyfnod Sylfaen/CA2

Dyma gyfle cyffrous i ysgolion y rhanbarth gael hyfforddiant swyddogol eto ar Talk4Writing.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Darllen Dan Arweiniad a Darllen yn

Drawsgwricwlaidd yn CA2

Dyma gyfle cyffrous i ysgolion y rhanbarth gymryd rhan mewn gweithdy hyfforddiant sy'n ceisio cyfoesi ac adnewyddu'r gweithgareddau darllen ar lefel uwch, Darllen dan Arweiniad, a darllen yn drawsgwricwlaidd yn CA2.

[Parhewch i ddarllen yma...](#)

Cymhwysedd Digidol

[Cliciwch yma](#) i weld yr holl gyrsiau newydd sydd wedi eu cynnwys. Mae'n bosib cofrestru ar gyrsiau sydd yn cael eu cynnal o rŵan hyd at ddiwedd Gorffennaf 2018.

Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

HYFFORDDIANT SAFONAU DYSGU NEWYDD I FENTORIAID YSGOL ★NEWYDD★

- [CYFRWNG CYMRAEG](#) - Dydd Mercher, 11 Ebrill 2018 – 9:00yb – 12:30yp – Plas Menai, Caernarfon
- [CYFRWNG SAESNEG](#) – Dydd Gwener, 13 Ebrill 2018 – 9:00yb – 12:30yp – OpTIC, Llanelwy

Ymholiadau: cysylltwch â Marian Williams ar 01286 679976 neu ang@gwegogledd.cymru

GWYBODAETH BWYSIG I CALU A CHYMORTHYDDION DYSGU

Cyfarfodydd Fforwm Rhifedd CA3

★NEWYDD★

Gwahoddir Cydlynwyr Rhifedd CA3 i fynychu un o'r cyfarfodydd fforwm canlynol:

- [Sir Flint a Wrecsam](#) - Dydd Mercher, 14 Mawrth 2018 - 9.30 – 11.30yb - Swyddfa GWE, Linden House, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP.
- [Conwy a Sir Ddinbych](#) - Dydd Iau, 15 Mawrth 2018 - 9.30 – 11.30yb - Ysgol Emrys ap Iwan, Abergele.
- [Gwynedd a Môn](#) - Dydd Gwener, 16 Mawrth 2018 - 9.30 – 11.30yb - Ysgol Eifionydd, Porthmadog. I gofrestru, cysylltwch â neryswynj@aol.com

Cyfleoedd Hyfforddi Eraill

Mantell yr Arbenigwr gyda Luke Abbott

★NEWYDD★

DYDD GWENER, 13 EBRILL – GLASDIR, LLANRWST

Yn dilyn yr hyfforddiant llwyddiannus ym mis Tachwedd, pleser yw cyhoeddi ein hyfforddiant nesaf ddydd Gwener 13 Ebrill yn Glasdir, Llanrwst.

Bydd ystod o weithdai drwy gydol y dydd a chyfleoedd i glywed gan arbenigwyr yn y maes a chan ysgolion lleol.

I gofrestru, anfonwch e-bost

at cerisiankenrick@gwegogledd.cymru

Cracio'r Cod - Cyfarfod 'Digimeet'

DYDD MERCHER, 21 MAWRTH 2018

Dyma gyfle cyffrous i weld beth mae ysgolion sy'n rhan o raglen 'Cracio'r Cod' wedi bod yn ei wneud gyda'u disgyblion i ddatblygu eu sgiliau codio.

Rhagor o fanylion [yma](#).

Digwyddiadau a gynhelir gan EDAU:

- [Beth yw CREADIGRWYDD? yng Nghwmni Frân Wen](#) ★NEWYDD★
[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.
- [Adnabod a Chefnogi Disgyblion Celf Mwy Abl a Thalentog](#)
[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion. ★NEWYDD★
- [Mantell yr Arbenigwr](#)
Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2018 – 4:00yp-6:00yp – Ystafell Erddig, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
- [O STEM i STEAM](#)
Dydd Iau, 22 Mawrth 2018 – 4:00yp-6:00yp – Storiell, Bangor

Ceir rhagor o fanylion am y digwyddiadau uchod ar ein gwefan drwy [glicio yma](#).

Cyflwyniad i Explorify

- DYDD MAWRTH, 13 MAWRTH 2018 – Tŷ MENAI, PARC MENAI

A. “Cyfathrebu, Gwaith Tîm ac Arwain Eraill,”

15 a 20 Mawrth 2018

Rhaglen **newydd** undydd ar gyfer cymorthyddion dysgu a CALU sy'n cefnogi ac yn arwain ar brosiectau ysgol ac/neu sy'n rheoli eraill yn yr ysgol.

Ni fydd unrhyw gost am fynychu'r rhaglen a thelir costau llanw.

Am fanylion pellach ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

B. ****Cynhadledd CALU wedi ei gohirio tan 9 Mawrth 2018****

Trefniadau ac amseroedd eraill yn aros yr un fath.

Cysylltwch â ni ar calu@gwegogledd.cymru gydag unrhyw gwestiynau.

Am fanylion pellach, [cliciwch yma](#).

RHAGLEN HYFFORDDI ARWEINYDDIAETH CYFOEDION Y RHWYDWAITH CENEDLAETHOL AR GYFER RHAGORIAETH MEWN MATEMATEG (NNEM):

Cyfloedd i arweinwyr mathemateg o bob lleoliad gymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi cyfoedion. Cliciwch yma am ragor o fanylion ar sut i wneud cais – [Rhaglen Hyfforddi Arweinyddiaeth Cyfoedion y Rhwydwaith](#)

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw 12pm, ar 7 Mawrth, 2018.

Unrhyw gwestiynau pellach, e-bostiwch

llythrenneddarhifedd@gwegogledd.cymru

• **DYDD MERCHER, 14 MAWRTH 2018 – TECHNIQUEST GLYNDŴR, WRECSAM**

Cyfle i fynychu sesiwn ymgyfarwyddo i athrawon yn Techniquest ar sut i ddefnyddio'r adnoddau anhygoel AM DDIM sydd ar gael i chi.

Rhagor o fanylion i'w cael [yma](#).

Tir yr Ysgol – Cyfle i Ddysgu ac Addysgu

DIWRNOD 1: Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2018 - Gardd Fotaneg Bangor, Bangor, LL57 2RQ

DIWRNOD 2: Dydd Mawrth, 12 Mehefin 2018 - Gardd Fotaneg Bangor, Bangor, LL57 2RQ

Hyfforddiant a drefnir gan Techniquest a STEM Learning
[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

I gofrestru, [cliciwch yma](#).

Cyfleoedd gyda GwE

Ymgyngorydd Cefnogi Gwelliant – Llesiant

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Rhys Howard Hughes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar **07557 759762** neu e-bost rhyswardhughes@gwegogledd.cymru.

Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#). Am ffurflen gais, [cliciwch yma](#), neu cysylltwch â 01286 679076.

Swyddog Cefnogol – Dros Dro (Cyfnod Mamolaeth)

Lleoliad: Swyddfeydd GwE, Bae Colwyn

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Bethan Eleri Roberts / Susan Owen Jones ar 0300 500 8087 neu e-bost bethaneleriroberts@gwegogledd.cymru / susanowenjones@gwegogledd.cymru

Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#). Am ffurflen gais, [cliciwch yma](#), neu cysylltwch â 01286 679076.

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter



GwEGogledd.Cymru

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

